Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 2 - Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Mercher, 6 Gorffennaf 2011**

Amser:
**09:00**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:


**Virginia Hawkins**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8544
Virginia.Hawkins@Wales.gov.uk

**Catherine Hunt**
Dirprwy Clerc y Pwyllgor
029 2089 8026
Catherine.Hunt@wales.gov.uk


## Agenda

### 1. Ymddiheuriadau a chyflwyniadau

### 2. Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd – Ffyrdd o weithio

(Tudalennau 1 - 8)
Papur 1 : E&S(4)-01-11

### 3. Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd – Trafod materion o fewn y portffolio a chynigion ar gyfer blaenraglen waith y Pwyllgor

(Tudalennau 9 - 17)
Papur 2 : E&S(4)-01-11

### 4. Dyddiad y cyfarfod nesaf

# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

**E&S(4)-01-11 : Papur 1**

## Pwyllgorau'r Pedwerydd Cynulliad

### Sefydlu pwyllgorau a'u cylch gwaith

1. Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth gefndirol am y strwythur pwyllgorau newydd yn y Pedwerydd Cynulliad a dulliau mwy hyblyg o weithio.

2. Mae Rheol Sefydlog 16.1 yn ei gwneud yn ofynnol bod y Cynulliad yn sefydlu pwyllgorau sydd â'r pŵer o fewn eu cylch gwaith i:

   (i) archwilio gwariant, dull gweinyddu a pholisi'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus cysylltiedig;
   (ii) archwilio deddfwriaeth;
   (iii) cyflawni swyddogaethau a nodir yn y Rheolau Sefydlog; a
   (iv) ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar Gymru.

3. Wrth wneud hynny, roedd yn rhaid i'r Pwyllgor Busnes sicrhau bod pob maes cyfrifoldeb y Llywodraeth a chyrff cyhoeddus cysylltiedig, a phob mater sy'n ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a swyddogaethau Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol, yn destun gwaith craffu gan bwyllgor neu bwyllgorau.

4. Mae'r Cynulliad wedi pennu strwythur pwyllgorau sy'n rhoi pŵer iddynt graffu ar y Llywodraeth a chyrff cyhoeddus cysylltiedig ac ar ddeddfwriaeth, o fewn cylch gwaith pwnc. Mae'n gofyn iddynt gyflawni'r ddwy brif swyddogaeth hyn. Mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa yn y Trydydd Cynulliad pan oedd pwyllgorau ar wahân wedi'u sefydlu at y dibenion hyn.

5. Ar 22 Mehefin, sefydlodd y Cynulliad bum pwyllgor i gyflawni'r swyddogaethau a nodir uchod. Y pwyllgorau hyn yw:

   - Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
   - Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
   - Y Pwyllgor Menter a Busnes
   - Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd
   - Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

6. Mae cylch gwaith y pwyllgorau yn eang a, gan mwyaf, maent yn pontio portffolios y Gweinidogion.  Fodd bynnag, mae gan y pwyllgorau hyblygrwydd i archwilio unrhyw fater sy'n berthnasol i'r cylch gwaith eang a ddiffinnir yn eu teitlau ac nid oes cyfyngiad arnynt o ran archwilio unrhyw fater perthnasol.

7. Sefydlwyd pum pwyllgor ychwanegol i gyflawni'r swyddogaethau eraill a nodir yn y Rheolau Sefydlog. Bydd materion Ewropeaidd yn cael eu cynnwys yng ngwaith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a'r pum pwyllgor sydd â thema iddynt.

**Prif swyddogaethau'r pwyllgorau**

*Craffu ar ddeddfwriaeth*

8. Mae gan y pwyllgorau'r pŵer cyffredinol i archwilio deddfwriaeth o fewn eu cylch gwaith. Yn ogystal, bydd y pwyllgorau'n gyfrifol am graffu ar Filiau'r Llywodraeth a Biliau nad ydynt yn rhai'r Llywodraeth y bydd y Pwyllgor Busnes yn eu cyfeirio iddynt.

   Yn ogystal, gall y pwyllgorau:

   - graffu ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol y mae'r Pwyllgor Busnes yn eu cyfeirio iddynt; a
   - craffu ar gynigion deddfwriaethol y DU a'r Undeb Ewropeaidd (a'u goblygiadau) a ddaw o fewn cylch gwaith y pwyllgorau.

*Craffu ar waith y Llywodraeth a chyrff cyhoeddus cysylltiedig*

9. Mae gan y pwyllgorau'r pwerau i archwilio gwariant, dull gweinyddu a pholisi'r Llywodraeth a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig. Gall pwyllgor ddewis cyflawni'r swyddogaethau hyn mewn sawl ffordd, er enghraifft drwy:

   - gynnal cyfarfodydd rheolaidd i graffu ar waith y Gweinidogion ac ar y gyllideb bob blwyddyn;
   - craffu'n ddwys ar bolisi, dull gweinyddu a gwariant Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, yn arferol drwy ymchwiliadau pwyllgor;
   - gwaith craffu dilynol ar weithredu'r argymhellion a wnaed mewn adroddiadau blaenorol, ac ati;
   - craffu ar rôl Llywodraeth Cymru o ran dylanwadu ar ddatblygiadau polisi'r UE sy'n arbennig o berthnasol i Gymru, o fewn cylch gwaith y pwyllgor, yn enwedig o ran llywio dull negodi'r DU ym Mrwsel, a hyrwyddo barn

Gymreig i’r Comisiwn Ewropeaidd, Senedd Ewrop (gan gynnwys Aelodau Cymru o Senedd Ewrop yn benodol) a thrwy sianelau eraill;

- cynnal gwaith craffu ar ddeddfwriaeth sy’n berthnasol i gylch gwaith y pwyllgor ar ôl iddi gael ei phasio.

10. Un o fuddiannau mwyaf y dull newydd i’r pwyllgorau yw y gall Aelodau gasglu gwybodaeth a datblygu arbenigedd polisi arbenigol a’u rhoi ar waith o ran yr holl waith craffu a wnânt.

**Cyflawni sawl rôl**

11. Er bod nifer llai o bwyllgorau, ni fydd hyn yn newid y gwaith sydd i’w wneud na’r amser sydd ei angen i gyflawni holl weithgareddau’r pwyllgorau. Mae hon yn system radical a heriol a bydd yn rhaid i’r pwyllgorau reoli rhaglen waith heriol ac amrywiol.

12. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i’r pwyllgorau drefnu eu cynllun gwaith yn ofalus. Bydd angen iddynt fod yn systematig a hyblyg o ran blaenoriaethu gwaith ac ystyried sut y gallant wneud eu tasgau yn y ffordd fwyaf effeithiol er mwyn cael yr effaith fwyaf. Mae papur sy’n tynnu sylw at y materion hyn wedi’i gynnwys yn Atodiad A.

13. Mae pum pwyllgor pwnc wedi’u sefydlu sydd â digon o aelodau i’w galluogi i wneud sawl darn o waith mewn is-bwyllgorau ffurfiol neu anffurfiol neu mewn grwpiau rapporteur, yn ogystal â gwneud gwaith fel pwyllgor cyflawn. Bydd hyn yn galluogi i waith polisi a gwaith deddfwriaethol ddigwydd ar yr un pryd. Er enghraifft, gellid defnyddio grwpiau llai i gynnal ymchwiliadau arbenigol mwy manwl, gan wneud defnydd o aelodau’r pwyllgor sydd â diddordeb penodol mewn maes pwnc. Mae’r hyblygrwydd hwn yn galluogi’r pwyllgorau i ymateb yn well i flaenoriaethau amrywiol neu i newidiadau dirybudd yn y dirwedd wleidyddol. Mae hefyd yn galluogi defnydd mwy effeithlon o amser o gofio natur anrhagweladwy gwaith deddfwriaethol.

14. Bydd angen i rai o gyfrifoldebau’r pwyllgorau gael eu cyflawni gan ddilyn gweithdrefnau penodol. Y mwyaf amlwg o’r rhain yw’r broses o ystyried deddfwriaeth. Bydd yn rhaid cynnwys yr ystod o gonfensiynau a gafodd eu mabwysiadu yn y Trydydd Cynulliad yn y system, neu eu hadolygu, fel y bydd deddfwriaeth yn cael ei hystyried yn drylwyr pa bynnag bwyllgor sy’n gwneud y gwaith. Bydd angen darparu canllawiau ar sut i ystyried

deddfwriaeth mewn amgylchiadau amrywiol, er enghraifft gan bwyllgor llawn neu is-bwyllgor.

15. Er mwyn gallu cynnwys y gwaith a gynhyrchir gan bortffolios eang a chyfrifoldeb ar y cyd am graffu ar ddeddfwriaeth a pholisi, bydd blociau sylweddol o amser yn yr amserlen wythnosol ar gael i'r pwyllgorau bob wythnos. Neilltuwyd un diwrnod a hanner pob pythefnos i bob un o'r pum pwyllgor i'w defnyddio i wneud eu gwaith. Rhennir hyn yn hanner diwrnod a diwrnod llawn bob yn ail wythnos.

**Atodiad A**

# Dull strategol posibl ar gyfer cynllunio gwaith

1. Mae'r atodiad hwn yn amlinellu dull strategol posibl ar gyfer cynllunio gwaith pwyllgorau'r Pedwerydd Cynulliad. Mae'r dull wedi'i seilio ar yr arferion da a ddatblygwyd gan rai pwyllgorau blaenorol ar gyfer cynllunio eu gwaith. Mae hefyd yn ystyried cyfrifoldebau ehangach y pwyllgorau, goblygiadau'r amseru o ran craffu ar ddeddfwriaeth a materion capasiti yn y Pedwerydd Cynulliad. Yn yr un modd ag yng nghyd-destun Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gellir ystyried bod gan y pwyllgorau dair swyddogaeth eang:

    - *Deddfu ar gyfer pobl Cymru*
    - *Dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif*
    - *Cynrychioli pobl Cymru*

2. Mae'r olaf o'r rhain fel arfer yn dylanwadu ar sut y bydd y pwyllgorau'n cyflawni'r ddwy swyddogaeth arall, o ran ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl Cymru yn eu gwaith, a sicrhau bod barn pobl Cymru'n cael ei chynrychioli yn y gwaith craffu.

3. Bydd gan y pwyllgorau'r capasiti i graffu ar ddeddfwriaeth a pholisi ar yr un pryd, drwy wneud mwy o ddefnydd o is-bwyllgorau ffurfiol ac anffurfiol a grwpiau rapporteur ac ati, yn ogystal â chynnal cyfarfodydd llawn o'r pwyllgor.

4. Prif ddiben y dull strategol hwn yw penderfynu pa waith y gellir ei wneud i helpu'r pwyllgor i reoli portffolio heriol ac amrywiol o gyfrifoldebau. Byddai mabwysiadu'r dull hwn yn golygu y bydd pwyllgor, wrth ystyried rhaglen waith, yn cael gwybodaeth gynhwysfawr am y materion o fewn ei gylch gwaith, mewn fformat syml. Ar sail y wybodaeth hon, byddai'r pwyllgor mewn sefyllfa i ddewis y materion y mae am eu hystyried fel rhan o'i flaenraglen waith.

**Penderfynu ar waith posibl**

*Goblygiadau amseriad gwaith craffu deddfwriaethol ar raglenni gwaith y pwyllgorau*

5. Gall y Pwyllgor Busnes ofyn i'r Pwyllgorau ystyried Biliau neu Gynigion Cydsyniad Deddfwriaethol penodol. Os bydd y Pwyllgor Busnes yn gwneud

hyn, rhaid iddo bennu'r dyddiad olaf y cytunwyd arno i bwyllgor gyflwyno ei adroddiad. Fel arfer, yn ystod y Trydydd Cynulliad, roedd gan y pwyllgorau gyfnod o rhwng chwech a 12 wythnos i gyflwyno adroddiad.

6. Bydd swm y ddeddfwriaeth y bydd unrhyw un o'r pwyllgorau'n ymdrin ag ef yn dibynnu ar bwnc y ddeddfwriaeth a gyflwynir i'r Cynulliad, sy'n cynnwys Biliau'r Llywodraeth a Biliau nad ydynt yn rhai'r Llywodraeth.

7. Ni fydd gan y pwyllgorau unrhyw reolaeth uniongyrchol dros pryd y bydd deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno na'r dyddiad ar gyfer cyflwyno adroddiadau. O'r herwydd, pan fyddant yn llunio eu rhaglenni gwaith, bydd yn bwysig iddynt fod yn ddigon hyblyg i allu ymateb i unrhyw waith a gyfeirir iddynt mewn modd amserol.

8. Ar 14 Mehefin 2011, gwnaeth y Prif Weinidog ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn ar flaenoriaethau deddfu Llywodraeth Cymru. Ar 12 Gorffennaf 2011, bydd cyhoeddiad yn cael ei wneud ar raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru am y pum mlynedd nesaf. Er y bydd y rhain yn rhoi amcan o beth fydd pynciau'r ddeddfwriaeth a gyflwynir yn y Pedwerydd Cynulliad, ni ragwelir y bydd yr amserau penodol ar gyfer cyflwyno darnau unigol o ddeddfwriaeth yn cael eu cynnwys; fel arfer, bydd y Llywodraeth yn cyflwyno Biliau heb fawr o rybudd.

*Nodi'r blaenoriaethau ar gyfer craffu ar waith y Llywodraeth a chyrff cyhoeddus cysylltiedig*

9. Wrth flaenoriaethau ei waith, mae'n bosibl y bydd pwyllgor yn dymuno ystyried:

   *Cwmpasu ehangder portffolio'r pwyllgor*

   Mae gan bob pwyllgor gylch gwaith eang. Yn ystod cyfnod Cynulliad, gallai fod yn rhesymol disgwyl i bwyllgor wneud gwaith ar faterion pwysig mewn perthynas â phob mater o fewn ei gylch gwaith.

   *Ystod cyfrifoldebau'r pwyllgor*

   Yn ogystal â chyflawni prif swyddogaethau archwilio Biliau penodol a gyfeirir iddynt gan y Pwyllgor Busnes, a chynnal ymchwiliadau sy'n craffu ar bolisi, dull gweinyddu a gwariant y Llywodraeth, bydd yn rhaid i bwyllgor sicrhau ei fod yn gwneud gwaith sy'n pontio ei holl gyfrifoldebau. Dyma rai enghreifftiau:

- craffu'n uniongyrchol ar waith y Gweinidogion mewn perthynas â'u cyfrifoldebau;
- craffu ar gynigion cyllideb;
- craffu ar gynigon deddfwriaethol y DU a'r Undeb Ewropeaidd;
- Ystyried y deisebau a gyfeirir iddynt gan y Pwyllgor Deisebau;
- cynnal gwaith craffu ar ddeddfwriaeth wedi iddi gael ei phasio i archwilio effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth;
- gwneud gwaith dilynol ar sut y gweithredwyd yr argymhellion:
- cymryd ymagwedd strategol i ddatblygiadau polisi allweddol ar lefel yr UE sydd o bwys arbennig i Gymru, a chraffu ar sut y rhoddir rhaglenni/mentrau ariannu'r UE ar waith yng Nghymru.

*Ffocws cwmpas ymchwiliadau*

Bydd ymchwiliadau fel arfer yn canolbwyntio ar bynciau o fewn cylch gwaith pwyllgor. Fodd bynnag, mae cylch gwaith y pwyllgorau'n eang ac yn drawsbynciol, ac mae'n bosibl y bydd yr Aelodau, wrth flaenoriaethau ymchwiliadau, yn dymuno ystyried a yw unrhyw bwyllgorau eraill yn cynnal ymchwiliadau tebyg (neu wedi eu cynnal yn ddiweddar). Mae'n bosibl hefyd y byddant yn dymuno ystyried gwaith tebyg sy'n cael ei wneud gan sefydliadau eraill.
Gall fod achlysuron hefyd pryd y byddai cyd-gysylltu gwaith ar draws y pwyllgorau o fudd, er enghraifft, mae rhai datblygiadau polisi allweddol yr UE yn pontio nifer o feysydd polisi.

*Effaith a chanlyniad posibl ymchwiliad*

Mae'n bosibl y bydd pwyllgor yn dymuno ystyried a oes tystiolaeth (gan gynnwys tystiolaeth anecdotaidd) sy'n awgrymu bod y mater dan sylw yn peri pryder amlwg i bobl Cymru, neu i grwpiau penodol o bobl yng Nghymru. Mae deisebau yn un ffordd y gall pobl amlygu'r materion hyn.

Gall amseru fod yn allweddol i effeithiolrwydd darn penodol o waith. Gall pwyllgorau hefyd ystyried ar ba gam mae Llywodraeth Cymru yn ei phroses o wneud penderfyniadau. Mae hyn yn debygol o olygu bod angen i'r Llywodraeth roi gwybodaeth i'r pwyllgorau.

*Adnoddau y byddai ar y Pwyllgor eu hangen i gynnal ymchwiliad craffu.*

Gall hwn fod yn amser defnyddiol i'r pwyllgorau ystyried a allai ymchwiliad penodol ddefnyddio dull arloesol i gasglu tystiolaeth sy'n torri tir newydd (mae enghreifftiau o'r hyn a ddefnyddiwyd yn y gorffennol ar gael). Mae'n

bosibl y bydd y pwyllgorau am ystyried yn y cam hwn beth yw’r ffordd orau o gael gafael ar yr arbenigedd sydd ei angen ar gyfer darn o waith.

# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

**E&S(4)-01-11 : Papur 2**

## Y Prif Faterion ar gyfer y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi paratoi papur yn amlinellu rhai o'r prif faterion sy'n dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd. Mae wedi'i atodi i'r papur eglurhaol hwn.

Gwasanaeth y Pwyllgorau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

## Materion allweddol i'w hystyried

**Papur briffio**

---

| **Dyddiad y papur:** | **6 Gorffennaf 2011** |
|---|---|

**Cynhyrchwyd y papur hwn gan y Gwasanaeth Ymchwil ar gyfer y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd**

Research Service

# Materion allweddol ar gyfer y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

## Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn amlinellu rhai o'r materion allweddol hynny sy'n rhan o gylch gwaith y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd y byddai'r Aelodau, o bosibl, am eu hystyried. Mae'n adeiladu ar y materion a nodwyd gan y Pwyllgor Cynaliadwyedd a'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig yn eu Hadroddiadau Etifeddiaeth ar ddiwedd y Trydydd Cynulliad ac mae'n ystyried datblygiadau mwy diweddar, ond nid yw'r rhestr yn gwbl gynhwysfawr. Mae llawer o'r materion yn y papur wedi'u gosod yng nghyd-destun datblygiadau yn yr UE, o ran polisïau a deddfwriaeth.

## Gwastraff ac ailgylchu

Nod *Strategaeth Gwastraff*[1] Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod Cymru yn genedl ddiwastraff erbyn 2050 ac yn gymdeithas sy'n ailgylchu'r rhan helaeth o'i gwastraff ( 70 y cant ohono) erbyn 2025. Yn ogystal â hyn, gosodwyd targedau gorfodol newydd i awdurdodau lleol Cymru ym *Mesur Gwastraff (Cymru) 2010*, a hynny ym maes ailgylchu, ailddefnyddio a chompostio, sef 52 y cant erbyn 2012/13, 58 y cant erbyn 2015/16, 64 y cant erbyn 2019/20 a 70 y cant erbyn 2024/25.[2] Daw'r *Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010* i rym ar 1 Hydref 2011, pan fydd yn rhaid i siopau godi tâl o 5c am fagiau untro.[3]

Yn y cyd-destun hwn, mae'n bosibl y byddai'r Aelodau am ystyried:

- Y seilwaith a'r marchnadoedd gwastraff yng Nghymru;
- Cysylltiadau â'r agenda Swyddi Gwyrdd;
- Rhoi'r rheoliadau a'r cyfarwyddebau Ewropeaidd newydd ar waith mewn perthynas â gwastraff
- Rhoi'r Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro ar waith.

## Ynni

Cyhoeddwyd *Datganiad Polisi Ynni* Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2010, gan gynnwys targedau newydd ar gyfer ynni adnewyddadwy yng Nghymru.[4] O ganlyniad i hyn, cyhoeddwyd *Polisi Cynllunio Cymru.*[5] Mae'r *Bil Lleoliaeth 2010-11* wedi'i gyflwyno gerbron y Senedd a bydd yn diddymu'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith ond ni fydd yn newid y setliad datganoli o ran pwy sy'n caniatáu prosiectau seilwaith ynni mawr yng Nghymru.[6] Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi fersiynau 'terfynol' o'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar gyfer Ynni, ac os caiff y rhain eu cymeradwyo gan y Senedd, cânt eu defnyddio fel sylfaen i'r penderfyniadau ynghylch prosiectau seilwaith ynni mawr yng Nghymru. Mae *Mesur Ynni*

[1] Llywodraeth Cymru, *Tuag at Ddyfodol Diwastraff,* Mehefin 2010
[2] *Mesur Gwastraff (Cymru) 2010* NAWM8
[3] *Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010* SI 2010/2880 (W.238)
[4] Llywodraeth Cymru, *Chwydro Carbon Isel:Datganiad Polisi Ynni Cymru ,* Mawrth 2010
[5] Llywodraeth Cymru, *Polisi Cynllunio (Argraffiad 4, Chwefror 2011),* Chwefror 2011
[6] *Bil Lleoliaeth 2010-11*

*2010-11* hefyd yn cael ei ystyried ar hyd o bryd yn San Steffan, a bydd ei holl ddarpariaethau'n gymwys i Gymru.[7]

Yn y cyd-destun hwn, mae'n bosibl y byddai'r Aelodau am ystyried:

- Pa mor effeithiol yw targedau ynni adnewyddadwy Llywodraeth Cymru a'r modd y cânt eu rhoi ar waith;
- Y berthynas rhwng Datganiadau Polisi Cenedlaethol Llywodraeth y DU ar gyfer Ynni a pholisi cynllunio Cymru
- Effaith y *Mesur Ynni* ar Gymru a sut y bydd hyn yn bwydo i waith Llywodraeth Cymru ar dlodi tanwydd ac effeithlonrwydd ynni.

**Datblygu Cynaliadwy**

Mae Cynllun Datblygu Cynaliadwy Cymru, sef *Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned,* yn cyflwyno gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer Cymru gynaliadwy ac yn ceisio sicrhau mai datblygu cynaliadwy yw egwyddor drefniadol ganolog y Llywodraeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd yn cyflwyno Bil Datblygu Cynaliadwy i sefydlu Comisiwn Datblygu Cynaliadwy i Gymru ac i roi rhagor o ddyletswyddau i Lywodraeth Cymru ym maes datblygu cynaliadwy. Yn ystod y Trydydd Cynulliad, cynhaliodd y Pwyllgor Cynaliadwyedd ddau ymchwiliad i geisio darganfod sut roedd datblygu cynaliadwy yn cael ei brif ffrydio yng ngwaith gwahanol adrannau'r Llywodraeth.

Yn y cyd-destun hwn, mae'n bosibl y bydd yr Aelodau am ystyried:

- Cyd-destun y polisi ac effaith posibl y Bil Datblygu Cynaliadwy
- Y cynnydd a wnaed i brif ffrydio datblygu cynaliadwy yng ngwaith adrannau'r Llywodraeth
- Adolygu Cynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru ddiwedd 2011 neu 2012.
- Adolygu rôl Llywodraeth Cymru yn y gwaith o hyrwyddo datblygu cynaliadwy ar y llwyfan rhyngwladol drwy Rwydwaith y Llywodraethau Rhanbarthol dros Ddatblygu Cynaliadwy (nrg4SD).

**Cynllunio**

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n gweithredu newidiadau yn y system cynllunio yng Nghymru i sicrhau ei bod yn ymateb yn well i anghenion busnes, yn unol â'r Rhaglen Adnewyddu'r Economi. Yn ystod y Trydydd Cynulliad, cynhaliodd y Pwyllgor Cynaliadwyedd ymchwiliad i'r system gynllunio gan ganolbwyntio ar effeithiolrwydd polisïau cynllunio cenedlaethol a lleol. Roedd hyn yn cynnwys ystyried y polisi ynni adnewyddadwy. Mae Llywodraeth newydd Cymru eisoes wedi cytuno ar rai o argymhellion y Pwyllgor, gan gynnwys cynnal adolygiad rhannol o'r broses o baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol a chynhyrchu Deddf Cynllunio i Gymru.

Yn y cyd-destun hwn, mae'n bosibl y bydd yr Aelodau am ystyried:

- Ystyried argymhellion ymchwiliad cynllunio'r Pwyllgor Cynaliadwyedd;

[7] *Y Mesur Ynni 2010-11*

- Ystyried pa mor effeithiol yw'r camau a gymerir gan Lywodraeth Cymru i wella rôl cynllunio mewn datblygu economaidd;
- Cwmpas a chynnwys Bil Cynllunio i Gymru (gan ddibynnu pryd y mae Llywodraeth Cymru yn debygol o'i gyflwyno);
- Yr Ardoll Seilwaith Cymunedol - y modd y caiff ei weithredu yng Nghymru a'i effaith ar ariannu seilwaith yn y dyfodol a'r modd y caiff cytundebau Adran 106 eu defnyddio;
- Rheoliadau adeiladu – goblygiadau datganoli'r rheoliadau yn 2012.

**Y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC)**

Ar hyn o bryd mae proses ar y gweill i ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a chaiff polisi newydd ei fabwysiadu yn 2013. Mae hyn y digwydd yng nghyd-destun trafodaethau ehangach ar y fframwaith ariannol amlflwydd ar gyfer cyllideb yr UE yn y dyfodol, a chyhoeddwyd y cynigion ar gyfer y fframwaith hwn ar 30 Mehefin. Mae ffermwyr a chymunedau gwledig Cymru yn dibynnu'n drwm ar yr arian a gânt drwy'r PAC. Mae disgwyl i'r Comisiwn Ewropeaidd gyhoeddi dogfen gyfathrebu ynglŷn â dyfodol y PAC ym mis Hydref neu fis Tachwedd 2011 a bydd y goblygiadau i Gymru yn sylweddol. Mae'n bosibl y caiff y trafodaethau presennol ar ddiffinio ardaloedd llai ffafriol at ddibenion dosbarthu arian drwy'r PAC effaith sylweddol ar Gymru hefyd.

Yn y cyd-destun hwn, mae'n bosibl y bydd yr Aelodau am ystyried:

- Effaith posibl unrhyw gynigion gan y Comisiwn ar Gymru;
- I ba raddau y mae'r cynigion yn adlewyrchu blaenoriaethau Cymru ar gyfer y PAC a'r materion y dylai Llywodraeth Cymru roi blaenoriaeth iddynt yn ei thrafodaethau;
- Effaith unrhyw ddiffiniadau newydd o ardaloedd llai ffafriol ar Gymru;
- Pa drefniadau pontio y bydd angen eu cyflwyno o ganlyniad i'r cynigion;
- Sut y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried barn rhanddeiliaid.

**Glastir**

Yng nghyd-destun diwygio'r PAC, mae cynllun amaeth-amgylchedd newydd wedi'i gyflwyno, sef Glastir. Gan mai nifer fechan o geisiadau a gafwyd yng nghylch cyntaf y cynllun, sefydlodd y Gweinidog Materion Gwledig blaenorol adolygiad annibynnol o Elfen Cymru Gyfan Glastir a chyflwynwyd adroddiad ym mis Mawrth 2011.[8] Derbyniwyd nifer o argymhellion yr adroddiad gan y Gweinidog Materion Gwledig.

Yn y cyd-destun hwn, mae'n bosibl y bydd yr Aelodau am ystyried:

- Sut y bydd y Gweinidog newydd yn rhoi Glastir ar waith;
- Y cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r newidiadau a argymhellodd y grŵp adolygu
- Unrhyw bryderon ynglŷn â'r cynllun ymhlith rhanddeiliaid.

[8] Llywodraeth Cymru, *Glastir: Adolygiad Annibynnol,* Mawrth 2011

**Y Môr, Pysgodfeydd ac Ansawdd Dŵr**

Rhoddodd *Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009* bwerau pellgyrhaeddol i Lywodraeth Cymru dros amgylchedd y môr a physgodfeydd. Mae Llywodraeth Cymru yn awr wrthi'n rhoi'r Ddeddf hon ar waith gan gynnwys ystyried cynllunio morol, cadwraeth natur, trwyddedau morol a physgodfeydd cynaliadwy. Mae nifer o Gyfarwyddebau Ewropeaidd yn rheoli ansawdd dŵr yng Nghymru gan gynnwys y Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi, Cyfarwyddeb y Fframwaith Dŵr a'r Gyfarwyddeb Nitradau. Caiff targedau'r Cyfarwyddebau hyn naill ai eu diwygio cyn bo hir neu bydd yn rhaid eu cyrraedd ymhen ychydig flynyddoedd.

Yn ogystal â hyn, bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn cyhoeddi cynigion cyn bo hir i ddiwygio'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin a fydd yn effeithio'n sylweddol ar y modd y caiff y diwydiant pysgodfeydd ei lywodraethu.

Yn y cyd-destun hwn, mae'n bosibl y bydd yr Aelodau am ystyried:

- Datblygu cynlluniau morol a'u goblygiadau i randdeiliaid;
- Datblygu a sefydlu gwarchodfeydd morol a gaiff eu diogelu o dan *Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009*;
- Trosglwyddo pwerau dros bysgodfeydd i Lywodraeth Cymru ac effaith y broses o ddiwygio'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (cynigion i'w cyhoeddi ym mis Gorffennaf 2011) ar y rhain;
- A all Cymru gyrraedd ei thargedau ar gyfer ansawdd dŵr, ac a fydd yn gwneud hynny, ac a all y seilwaith dŵr presennol sicrhau ansawdd dŵr uchel yn y dyfodol; a
- Sut y caiff y broses o drosglwyddo carthffosiaeth breifat i berchnogaeth gyhoeddus ei rheoli a'i gweithredu.

**Erydu a llifogydd arfordirol**

Cynhaliodd y Pwyllgor Cynaliadwyedd blaenorol ymchwiliad i lifogydd yng Nghymru ond nid erydu arfordirol gafodd y sylw pennaf. Yn ogystal â hyn, mae *Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010* yn gosod rhwymedigaethau newydd ar Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol Cymru yng nghyswllt perygl llifogydd ac erydu arfordirol.[9]

Yng nghyd-destun erydu arfordirol a llifogydd, mae'n bosibl y bydd yr Aelodau am ystyried:

- Y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Llifogydd ac Erydu Arfordirol y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ei chynhyrchu o dan *Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010* , ond nad yw wedi'i chwblhau eto;
- Pa mor effeithiol yw Nodyn Cyngor Technegol 15 ar Ddatblygu a Llifogydd;
- Mabwysiadu Cynlluniau Rheoli Traethlin a chynhyrchu strategaethau perygl llifogydd lleol.

[9] *Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010* c.29

**Y gadwyn cyflenwi bwyd**

Yn nifer o'r adroddiadau a gynhyrchodd yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig yn ystod y Trydydd Cynulliad, argymhellwyd y dylid datblygu swydd ar gyfer ombwdsmon archfarchnadoedd yn y DU i sicrhau bod ffermwyr a chynhyrchwyr Cymru yn cael eu trin yn deg. Ar 24 Mai 2011, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y *Mesur Drafft ynghylch Dyfarnwr Cod Bwydydd* sy'n ceisio sefydlu dyfarnwr annibynnol ar gyfer y Cod Bwydydd.[10] Ym mis Rhagfyr 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru strategaeth fwyd yng Nghymru ac mae cynlluniau gweithredu ar gyfer y strategaeth wrthi'n cael eu datblygu gan Lywodraeth Cymru ar y cyd â'r Bartneriaeth Cynghori ar Fwyd a Diod.

Ar lefel Ewropeaidd, mae dau becyn yn ymwneud â'r diwydiant bwyd yng Nghymru yn cael eu hystyried, sef y Pecyn Llaeth a'r Pecyn Ansawdd. Mae gan y ddau becyn oblygiadau i gynhyrchwyr Cymru gan gynnwys y posibilrwydd o gyflwyno cytundebau gorfodol rhwng cyflenwyr a phroseswyr llaeth, a chyflwyno labeli'n dangos o ba wlad y mae cynnyrch yn tarddu.

Yn y cyd-destun hwn, mae'n bosibl y bydd yr Aelodau am ystyried:

- A yw cynigion y *Mesur Dyfarnu Cod Bwydydd Drafft 2010-2011* yn ystyried barn rhanddeiliaid yng Nghymru yn ddigonol;
- Y cynnydd a wnaed o ran datblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer strategaeth fwyd Llywodraeth Cymru;
- Effaith y Pecyn Llaeth a'r Pecyn Ansawdd ar Gymru ac a ydynt yn adlewyrchu blaenoriaethau Cymru yn ddigonol.

**Organebau sydd wedi'u haddasu'n enetig (GMOs)**

Ar hyn o bryd, mae'r GMOs yn cael eu hawdurdodi ar lefel Ewropeaidd ac yna caniateir iddynt gael eu tyfu a/neu eu gwerthu yn unrhyw le yn yr Undeb Ewropeaidd. Os yw Aelod Wladwriaethau am atal cynhyrchwyr rhag tyfu cnydau GMO ar eu tiriogaeth, rhaid iddynt gyflwyno tystiolaeth wyddonol newydd sylweddol sy'n dangos eu bod yn peryglu iechyd pobl neu'r amgylchedd. Mae hyn wedi golygu bod rhai Aelod Wladwriaethau wedi bod yn amharod i awdurdodi GMOs, gan nad yw'n hawdd iddynt reoli'r modd y cânt eu defnyddio wedyn. Fel ymateb i'r mater hwn, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cyhoeddi cynigion i addasu'r modd y caiff GMOs eu rheoli yn yr UE i ganiatáu i Aelod Wladwriaethau wahardd GMOs am resymau cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach. Hyd yma, mae nifer o Aelod Wladwriaethau a rhanddeiliaid allweddol wedi mynegi pryder ynghylch yr ansicrwydd cyfreithiol y gallai hyn ei greu ac nid yw'n glir eto a fydd Llywodraethau rhanbarthol yn gallu gwahardd GMOs yn eu rhanbarth hyd yn oed os nad yw'r Aelod Wladwriaeth gyfan yn gwneud hynny.

Yn y cyd-destun hwn, mae'n bosibl y bydd yr Aelodau am ystyried:

- Effaith posibl deddfwriaeth arfaethedig yr UE ar Gymru;

[10] *Draft Groceries Code Adjudicator Bill*, Mai 2011

- A fydd Llywodraeth Cymru yn gallu gwneud ei benderfyniadau ei hun ynghylch cynhyrchu GMOs yng Nghymru;
- Goblygiadau ehangach y cynnig ar bolisïau.

**Cadwraeth Natur**

Yn ystod y Trydydd Cynulliad, cwblhaodd y Pwyllgor Cynaliadwyedd adolygiad i ddarganfod pam na lwyddwyd i gyrraedd targed 2010 i roi stop ar golli bioamrywiaeth. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu 'Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol' ar hyn o bryd, sef 'Cymru Fyw'. Yng nghyd-destun y fframwaith newydd hwn, mae trefniadau sefydliadol y tri chorff amgylcheddol (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru) yn cael ei ystyried. Yn ogystal â hyn, bydd Strategaeth Bioamrywiaeth yr UE, a fabwysiadwyd ym mis Mai 2011, yn dylanwadu ar waith Llywodraeth Cymru yn y maes hwn.

Yn y cyd-destun hwn, mae'n bosibl y bydd yr Aelodau am ystyried:

- A fydd Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol yn rhoi argymhellion y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar waith;
- Trefniadau sefydliadol y cyrff amgylcheddol ac effaith unrhyw newidiadau yn y dyfodol;
- A ddylid cryfhau'r ddyletswydd bioamrywiaeth sydd wedi'i chynnwys yn *Neddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Cefn Gwlad 2006* , fel yr awgrymodd y Pwyllgor Cynaliadwyedd.

**Y newid yn yr hinsawdd a lleihau carbon**

Ym mis Hydref 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Strategaeth a Chynllun Cyflawni ar y Newid yn yr Hinsawdd yn ymwneud â lleihau allyriadau ac ymaddasu.[11] Mae'r Strategaeth a'r Cynlluniau Gweithredu cysylltiedig yn gosod allan sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflawni'i hymrwymiad i sicrhau gostyngiad o 3 y cant mewn allyriadau carbon o 2011 ymlaen mewn meysydd sydd wedi'u datganoli. Yn ystod y Trydydd Cynulliad, cwblhaodd y Pwyllgor Cynaliadwyedd adolygiad pellgyrhaeddol i leihau carbon mewn nifer o sectorau yng Nghymru.  Gwnaeth  y Pwyllgor nifer o argmhellion ynghylch y camau y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd i helpu i gyrraedd y targedau i leihau carbon.

Yn y cyd-destun hwn, mae'n bosibl y bydd yr Aelodau am ystyried:

- Y cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus yn fwy cyffredinol yng Nghymru i leihau allyriadau carbon;
- Cyfraniad Cymru at gyrraedd targedau'r newid yn yr hinsawdd yn rhyngwladol, yn Ewropeaidd ac yn y DU;
- I ba raddau y gwnaed cynnydd yng nghyswllt argymhellion y Pwyllgor Cynaliadwyedd yn eu hadroddiadau ar leihau carbon yng Nghymru.

[11] Llywodraeth Cymru, *Strategaeth ar y Newid yn yr Hinsawdd* (gwefan), [darllenwyd 29 Mehefin]

**Taliadau Rheoli Cig**

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi cyhoeddi ei bod, yn y dyfodol, yn bwriadu dilyn polisi o adennill cost lawn y rheoliadau hylendid cig a lles anifeiliaid gan gynhyrchwyr a phroseswyr. Ar hyn o bryd, mae'r Asiantaeth yn rhoi cymhorthdal tuag at ran o'r costau. Yn ei ymchwiliad i Hylendid Bywd a Lles Anifeiliaid daeth yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig i'r casgliad y gallai'r polisi hwn effeithio ar barhad lladd-dai bach a chanolig eu maint yng Nghymru ac, o ganlyniad, ar gynhyrchwyr Cymru.

Yn y cyd-destun hwn, mae'n bosibl y bydd yr Aelodau am ystyried:

- Goblygiadau'r penderfyniad hwn i gynhyrchwyr a phroseswyr yng Nghymru;
- Pa ddulliau y gellid eu defnyddio i liniaru unrhyw effeithiau negyddol ;
- Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd yn dilyn y penderfyniad hwn.